

Arolygiad Dilynol (lle rhoddwyd rhybudd)

Uned Môn Anafiadau

Castell-nedd Port Talbot

Dyddiad arolygu: 17 Tachwedd
2020

Dyddiad cyhoeddi: 02 Mawrth
2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	23
4.	Beth nesaf?	31
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol	32
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	33
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	34
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	35

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol lle rhoddwyd rhybudd o Uned Môn Anafiadau Ysbyty Castell Nedd Port-Talbot, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ar 17 Tachwedd 2020. Diben y gwiriad ansawdd dilynol hwn oedd adolygu lefel y camau a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed mewn ymateb i gynllun gwella y cytunwyd arno yn dilyn arolygiad o'r uned ar 18 a 19 Medi 2018.

Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd ddarparu tystiolaeth ymlaen llaw i gefnogi'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau gofynnol a gofnodwyd yng nghynllun gwella AGIC.

Cynhaliwyd y gwiriad ansawdd drwy Microsoft Teams, gyda rheolwr arolygu AGIC a chynrychiolwyr tîm uwch-reolwyr yr Uned Môn Anafiadau yn bresennol.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn ystod ein harolygiad diwethaf o'r Uned Mân Anafiadau, a gynhaliwyd ar 18 a 19 Medi 2018, roedd gennym bryderon uniongyrchol am allu'r Uned i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Felly, nid oeddem yn hyderus bod pob un o'r prosesau a'r systemau a oedd ar waith yn ddigonol i sicrhau bod cleifion yn cael safon dderbyniol o ofal diogel ac effeithiol yn gyson.

Yn ystod y gwiriad ansawdd dilynol hwn, rhoddwyd tystiolaeth inni a oedd yn dangos bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn yr Uned mewn perthynas â phrofiad y claf a gofal diogel ac effeithiol. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd dystiolaeth i ddangos ei fod wedi gwneud y gwelliannau a nodwyd yn ei gynllun gweithredu, yn ogystal â gwelliannau pellach.

Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd, a chyfeirir at y rhain yn fanylach yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Crëwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn flaenorol, ar 1 Ebrill 2019, ar ôl i'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drosglwyddo o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i fwrdd iechyd newydd, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi tua 12,500 o staff ac mae ganddo dri ysbyty sy'n darparu gwasanaethau, sef Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton yn Abertawe, ac Ysbyty Castell Nedd Port Talbot ym Maglan, Port Talbot. Mae'n gwasanaethu prif ardaloedd trefol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ac ardaloedd awdurdodau lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot drwy'r tri phrif ysbyty, sef poblogaeth o tua 390,000.

Mae Uned Mân Anafiadau Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn trin mân anafiadau annisgwyl a brys. Gall yr Uned ymdrin â chyflyrau fel:

- Anafiadau i'r coesau/breichiau gan gynnwys torri asgwrn a datgymalu'r ysgwydd, y bysedd a'r bysedd traed
- Sgathradau, clwyfau a mân losgiadau
- Anafiadau i'r pen neu'r wyneb os nad yw'r claf wedi colli ymwybyddiaeth
- Mân anafiadau i'r gwddf os yw'r claf yn gallu symud ac nad oes ganddo binnau bach
- Mân anafiadau i'r cefn nad ydynt wedi digwydd ar ôl troi neu godi rhywbeth
- Darnau estron yn y llygaid, y clustiau a'r trwyn
- Anafiadau arwynebol i'r llygaid a'r clustiau
- Brathiadau pryfed, anifeiliaid a phobl
- Pigiadau pryfed.

O ganlyniad i'r pandemig a newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd, anogir cleifion â mân anafiadau i ddefnyddio gwasanaethau mân anafiadau Uned Mân Anafiadau Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.

Ansawdd profiad y claf

Yn ystod ein harolygiad ym mis Medi 2018, gwnaethom siarad â chleifion, a oedd yn cytuno bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth.

Nodwyd bod angen gwneud gwelliannau o ran cynnal preifatrwydd cleifion a'r amrywiaeth o wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ac ar gael i gleifion.

Yn ystod y gwiriad ansawdd dilynol hwn, roedd yn galonogol gweld bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud y mwyafrif o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad diwethaf, ac wedi eu cynnal.

Gwelliannau yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf

Ymhlith y meysydd i'w gwella a nodwyd gan AGIC yn ystod yr arolygiad diwethaf roedd y canlynol. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- Gwella'r amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd sy'n cael ei harddangos yn yr Uned
- Ystyried yr opsiynau ar gyfer darparu dŵr yfed i gleifion yn yr Uned
- Sicrhau bod y staff yn cau drysau ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth wrth weld cleifion.
- Sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth am Gweithio i Wella.¹
- Gosod blwch awgrymiadau newydd ar gyfer adborth gan Ffrindiau a Theulu yn lle'r hen un blêr
- Adolygu'r wybodaeth a ddarperir er mwyn sicrhau ei bod ar gael yn Gymraeg

¹<http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella>

- Sicrhau y gall y staff ddarparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys Braille
- Sicrhau bod y staff yn gwisgo bathodynau enw clir
- Ystyried defnyddio bwrdd "pwysydd ar ddyletswydd"
- Sicrhau bod yr amser aros disgwyledig cywir yn cael ei arddangos bob amser.

Y camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 31 Hydref 2018 a'i gynllun gwella ychwanegol dyddiedig 10 Mehefin 2019:

- Arddangos gwybodaeth hybu iechyd yn ardal y dderbynfa a chyflwyno bwrdd gwybodaeth i gleifion sy'n defnyddio codau QR² er mwyn darparu amrywiaeth o wybodaeth gyfredol i gleifion
- Gosod arwyddion dwyieithog yn yr Uned yn hysbysu cleifion y gallant ofyn i'r staff am ddŵr yfed a ble y gallant gael bwyd/diod. Hefyd, mae Pwyllgor Diogelwch Dŵr Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn ystyried cais i osod peiriant dŵr yn yr Uned
- Mae pob aelod o'r staff wedi cael cyfarwyddyd i ofyn i gleifion a hoffent i'r drws fod ar gau yn ystod eu hymgyngoriad, a chofnodi hyn yn nodiadau'r cleifion. Byddai eithriadau i'r broses hon yn seiliedig ar asesiad risg yr Uned mewn perthynas â'r risg o drais ac ymddygiad ymosodol
- Caiff gwybodaeth am Gweithio i Wella bellach ei darparu'n ddwyieithog yn yr Uned. Yn y tymor hwy, caiff gwybodaeth am Gweithio i Wella ei harddangos ar y bwrdd codau QR
- Mae blwch awgrymiadau plastig y gellir ei gloi wedi'i osod yn lle'r hen flwch adborth gan Ffrindiau a Theulu

²Cod Ymateb Cyflym (QR) yw cod bar a label optegol y gellir ei ddarllen â pheiriant i ddarparu gwybodaeth.

- Mae gwybodaeth ddwyieithog wedi'i gosod yn yr ardal aros yn lle'r wybodaeth Saesneg. Mae rhaglen ar waith i gyfieithu gwybodaeth glinigol i gleifion
- Atgoffwyd pob aelod o'r staff sut i gael gafael ar wasanaethau dehongli a chyfieithu i ieithoedd eraill, gan gynnwys Braille. Bydd yr Uned yn gwahodd Grŵp Cyfeirio Anabledd y Bwrdd Iechyd i gynnal ymweliad arolygu
- Mae bathodynau newydd wedi'u harchebu ar gyfer pob aelod o staff yr Uned
- Mae'r Uned wrthi'n datblygu bwrdd "Pwy sy'n gyfrifol" i'w arddangos mewn ardaloedd aros, ynghyd â bwrdd sy'n dangos gwisg y staff a rolau'r aelodau o staff sydd ar ddyletswydd
- Caiff amseroedd aros eu dangos ar ffenestr y dderbynfa a chynhelir hapwiriadau i fonitro cywirdeb yr amseroedd hyn. Bydd sgrin gyfathrebu'r Uned yn dangos amseroedd aros byw yn y dderbynfa flaen.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Yn ystod ein harolygiad dilynol, gwnaethom nodi'r canlynol:

- Rhoddwyd tystiolaeth i AGIC bod byrddau gwybodaeth QR sy'n darparu gwybodaeth y gellir ei lawrlwytho gydag opsiynau dwyieithog wedi'u gosod yn yr ardal aros a'r ardal glinigol. Yn ogystal, roedd cynllun yr ystafell aros wedi'i newid er mwyn galluogi cleifion i weld dau deledu newydd a osodwyd. Mae un ohonynt yn dangos BBC1 tan 9pm (pan gaiff ei ddiffodd) a system³ BrightSign yw'r llall, sy'n darparu gwybodaeth am brosesau'r Uned, rheoli heintiau, amseroedd aros cyfredol, atal damweiniau a "dewis doeth"⁴. Dywedwyd wrth AGIC fod gwybodaeth am amseroedd aros yn cael ei harddangos yn ddwyieithog a bod yr Uned wedi trefnu i'r prif gyflwyniad gael ei gyfieithu, ond nad oedd y cyfieithiad Cymraeg wedi dod i law eto.

³ System arwyddion digidol yw BrightSign. Mae'n galluogi'r defnyddiwr i drefnu ac amserlenni cynnwys a arddangosir ar sgrin.

⁴ Menter gan y GIG yw ymgyrch Dewis Doeth, sydd â'r nod o helpu pobl i ddewis y lle gorau i gael triniaeth os byddant yn mynd yn sâl.

- Dywedwyd wrthym fod cais am beiriant dŵr wedi'i gyflwyno ond ei fod wedi'i wrthod gan y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau hyd nes y cynhelir trafodaethau pellach. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw jygiau dŵr yn yr ystafelloedd aros. Fodd bynnag, gall cleifion a'r cyhoedd ofyn am ddŵr yfed oer sy'n cael ei storio ar hyn o bryd yn yr ystafelloedd clinig a brysbennu mewn fflasgiau. Mae'r Nyrs Ymgynghorol wedi cadarnhau y bydd yn parhau i drafod y mater hwn â'r Cyfarwyddwr Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Ystadau
- Dywedodd y Nyrs Ymgynghorol a'r Fetron wrth AGIC fod yr ystafell brysbennu yn fach ond bod iddi sawl mynedfa/allanfa. Mae'r ystafelloedd ymgynghori eraill o faint safonol, gydag un fynedfa/allanfa. Mae'r staff yn ystyried diogelwch staff a chleifion ac yn gwneud penderfyniad clinigol ynghylch p'un a ddylid cau'r drysau. Caiff hyn ei gydbwyso gan yr angen i gynnal urddas a phreifatrwydd cleifion. Yn dilyn arolygiad AGIC yn 2018, gofynnwyd i'r staff gofnodi'r penderfyniadau clinigol hyn. Fodd bynnag, mae system Cerdyn CAS Cenedlaethol newydd wedi'i gyflwyno nad yw'n cynnig cyfleuster i gofnodi'r penderfyniad hwn. Rhoddodd y rheolwyr sicrwydd i AGIC fod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r angen i barhau i wneud penderfyniadau clinigol
- Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth ddwyieithog am Gweithio i Wella yn cael ei harddangos ar y sgriniau QR, y sgriniau teledu, a hysbysiadau wedi'u lamineiddio ar hysbysfyrddau yn yr Uned. Yn ogystal, gall cleifion a'r cyhoedd ofyn am wybodaeth gan staff derbynfa'r Uned
- Gosodwyd blychau newydd ar gyfer adborth gan Ffrindiau a Theulu, ond nid yw'r blychau hyn yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn unol â chyfyngiadau COVID-19. Caiff codau QR eu harddangos ar flaen y blychau er mwyn annog adborth digyswllt.
- Cadarnhaodd y Nyrs Ymgynghorol fod arwyddion dwyieithog bellach ar gael a bod yr un wybodaeth yn cael ei harddangos yn ddwyieithog ar y sgriniau QR. Roedd y staff wedi cael e-bost yn eu hysbysu am y gwasanaethau cyfieithu a dehongli sydd ar gael. Rhoddwyd tystiolaeth i gadarnhau bod gwybodaeth ar gael ar fewnrwyd y Bwrdd Iechyd. Mae'r ysbyty wedi penodi nyrs anableddau dysgu, sy'n cael ei chefnogi gan hyrwyddwyr ar y wardiau. Cadarnhaodd y Fetron fod cyfleuster dolen sain ar gael yn yr Uned. Cadarnhaodd y Nyrs Ymgynghorol nad oedd unrhyw bryderon wedi'u codi na digwyddiadau wedi'u cofnodi mewn perthynas â gwasanaethau cyfieithu a dehongli

- Cadarnhaodd y Fetron fod y staff wedi cael y bathodynau cywir a'i bod yn cynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau eu bod yn weladwy
- Rhoddwyd tystiolaeth inni i gadarnhau bod y bwrdd "pwy sy'n gyfrifol" yn cael ei arddangos yn yr ystafell aros a bod y bwrdd "pwy sydd ar ddyletswydd" yn cael ei arddangos yn yr ardal glinigol
- Rhoddwyd tystiolaeth inni i gadarnhau bod amseroedd aros bellach yn cael eu harddangos ar y teledu gwybodaeth i gleifion newydd mewn testun bras. Caiff amseroedd aros eu diweddarau bob awr gan staff y dderbynfa a chaiff hapwiriadau eu cynnal gan arweinydd y tîm a'r nyrs â chyfrifoldeb er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn ystod yr arolygiad blaenorol ym mis Medi 2018, gwnaethom nodi nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Yn ystod y gwiriad ansawdd dilynol, gwelsom dystiolaeth bod y prosesau a'r systemau a oedd ar waith yn ddigonol i sicrhau bod y cleifion yn cael safon dderbyniol o ofal diogel ac effeithiol yn gyson, a bod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o'r fath.

Mewn ymateb i newidiadau gweithredol a'r pandemig, mae'r Uned yn darparu cyfleuster y gall cleifion ei ffonio cyn dod i'r uned, ac mae wedi cyflwyno ystafell aros rithwir lle y gall cleifion gael eu hasesu cyn dod i'r uned. Mae hyn yn helpu i atal atgyfeiriadau amhriodol ac yn rheoli nifer cyffredinol y cleifion sy'n dod i'r Uned.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau ac wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r amgylcheddau a'r modelau gofal, ynghyd â'r systemau a'r prosesau, mewn ymateb i'r cynllun gwella a gyhoeddwyd gennym yn dilyn yr arolygiad ym mis Awst 2018.

Y meysydd lle roedd angen sicrwydd uniongyrchol yn ystod yr arolygiad diwethaf

Roedd y meysydd i'w gwella ar unwaith a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod meddyginiaeth/cyfarpar dadebru ar gael ac yn ddiogel i'w defnyddio bob amser os bydd argyfwng yn ymwneud â chlaf yn yr Uned ac mewn adrannau a wardiau eraill ledled y bwrdd iechyd

- Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod cyfarpar trydanol cludadwy yn yr Uned yn ddiogel i'w ddefnyddio
- Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd adolygu proses a ddefnyddir gan yr Uned i ymdrin â chleifion yr amheuir eu bod wedi torri asgwrn er mwyn sicrhau eu bod yn cael gofal amserol priodol

Y camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau canlynol yn ei gynllun gwella uniongyrchol dyddiedig 29 Medi 2018:

- Caiff archwiliadau dyddiol o'r troli dadebru a'r diffibrilwyr eu cynnal yn yr Uned a'u cofnodi gan Ymarferwyr Nyrsio Brys mewn cofnod gwirio'r ystafell dadebru a lofnodir bob dydd.⁵ Atgoffwyd pob nyrs glinigol yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot a phob nyrs arweiniol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe o'r angen i sicrhau y caiff troliâu a chyfarpar dadebru eu harchwilio'n ddyddiol. Caiff y trefniant hwn ei fonitro fel rhan o hapwiriadau'r Fetron ac ymweliadau sicrwydd dirybudd Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Caiff canfyddiadau archwiliadau dirybudd eu cyflwyno'n ffurfiol i Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Gwella Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Polisi Dadebru wedi'i ddosbarthu, sy'n nodi'r angen am archwiliadau dyddiol, gan gynnwys rhestr wirio. Caiff canfyddiadau arolygiad AGIC eu cyflwyno i Gadeirydd Pwyllgor Dadebru'r Bwrdd Iechyd i'w rhannu â'r sefydliad cyfan fel y gellir dysgu gwersi ohonynt. Mae adran archwilio mewnol y Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r trefniadau Sicrhau Ansawdd Nyrsio
- O dan Reoliadau Trydan yn y Gweithle 1989, mae'n ofynnol sicrhau y caiff unrhyw gyfarpar trydanol a allai achosi anaf ei gadw mewn cyflwr diogel. Nid yw'r Rheoliadau'n pennu'r hyn y dylid ei wneud, gan bwy na pha mor aml, ac nid ydynt yn pennu ei bod yn ofyniad cyfreithiol i wneud hyn yn flynyddol. Fodd bynnag, cydnabu'r Bwrdd Iechyd bryderon yr arolygwyr ynghylch diogelwch cyfarpar trydanol yn yr Uned a threfnodd i aelod o'r tîm Ystadau archwilio'r holl gyfarpar trydanol cludadwy erbyn 26.9.2018 ac i

⁵ Nyrs gofrestredig sydd wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol i asesu, rhoi diagnosis a rhagnodi triniaeth i gleifion â mân anafiadau a salwch.

eitemau gael prawf PAT llawn⁶ neu eu hatal rhag cael eu defnyddio fel y bo'n briodol. Caiff Polisi drafft y Bwrdd Iechyd ar Brofi Cyfarpar Trydanol Cludadwy ei adolygu gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ym mis Tachwedd 2018. Bydd y pwyllgor yn ceisio safoni dull y Bwrdd Iechyd gynnal profion PAT ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Os caiff unrhyw bryderon eu nodi, bydd y pwyllgor yn cyflwyno ei ganfyddiadau i Grŵp Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd.

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cadarnhau'r broses ar gyfer rheoli cleifion yr amheuir eu bod wedi torri asgwrn yn yr Uned ac ar draws y Bwrdd Iechyd drwy ddatblygu llwybr ar gyfer rheoli cleifion yr amheuir eu bod wedi torri asgwrn. Mae'r llwybr hwn yn seiliedig ar arferion gorau a chaiff ei gyflwyno i Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Gwellu'r Uned ym mis Hydref 2018 i'w gymeradwyo'n ffurfiol. Yn y byrdymor, hyd nes y caiff y llwybr ei gymeradwyo, caiff pob claf yr amheuir ei fod wedi torri asgwrn ei atgyfeirio'n uniongyrchol at y Clinig Toresgyrn i gael adolygiad arbenigol. At hynny, mae'r Uned yn cynnal archwiliad ôl-weithredol o 50 o gleifion, gan nodi'r cyfnod o amser rhwng eu hymweliad cyntaf â'r Clinig Toresgyrn a'r adeg pan gawsant ddiagnosis ac adolygiad yn y clinig. Y nod yw canfod p'un a fu oedi cyn adolygu cleifion yr amheuir eu bod wedi torri asgwrn. Mae'r Uned hefyd yn archwilio 50 o gyn-gleifion eraill a gafodd eu hatgyfeirio'n uniongyrchol at y Clinig Toresgyrn er mwyn mesur y cyfnod o amser rhwng eu hymweliad cyntaf â'r clinig a'r adeg pan gawsant adolygiad, a chanfod p'un a oedd diagnosis a dulliau rheoli'r Clinig Toresgyrn yn cyfateb i rai'r Uned.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Yn ystod ein harolygiad dilynol, gwnaethom nodi'r canlynol:

- Rhoddwyd tystiolaeth i gadarnhau y caiff archwiliadau dyddiol eu cynnal o'r trolïau dadebru a'r diffibrilwyr. At hynny, rhoddwyd copi o bolisi dadebru cyfredol y Bwrdd Iechyd i AGIC.
- Cadarnhaodd y Nyrs Ymgynghorol fod profion PAT rheolaidd wedi'u cynnal ar yr holl gyfarpar trydanol yn dilyn arolygiad AGIC yn 2018. Fodd bynnag, ym mis Awst 2020, cafodd cynnig ei gyflwyno a'i ddogfennu yng nghofnodion Pwyllgor Iechyd a

⁶ Profi dyfeisiau cludadwy (PAT) yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o archwilio dyfeisiau a chyfarpar trydanol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Diogelwch y Bwrdd Iechyd a oedd yn cadarnhau'r penderfyniad i ddileu'r gofyniad am brofion PAT cyffredinol a chyflwyno proses asesu risg yn seiliedig ar ganllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn lle hynny. Dangosodd y cofnodion hefyd fod polisi newydd wedi'i gadarnhau a'i fod yn disgwyl cymeradwyaeth ym mis Medi 2020. Roedd yr Uned yn aros i gael copi o'r polisi er mwyn cael canllawiau ar sut i asesu risg mewn perthynas â'r angen am brofion PAT.

- Cawsom gopi o'r polisi gweithredol a oedd yn cadarnhau bod cleifion yr amheuir eu bod wedi torri asgwrn yn cael eu hadolygu'n ddyddiol gan uwch-feddyg trawma ac orthopedig. O ran cleifion sy'n mynd i'r uned y tu allan i oriau, dywedwyd wrthym fod meddyg ymgynghorol trawma ac orthopedig yn adolygu eu hachosion mewn clinig toresgyrn rhithwir y diwrnod gwaith canlynol. Gall y meddyg ymgynghorol weld y nodiadau clinigol a'r profion pelydr-X a gwneud penderfyniadau clinigol yn seiliedig ar y wybodaeth hon. Yn dilyn yr adolygiad, caiff cleifion naill ai alwad ffôn yn gofyn iddynt ddod am apwyntiad wyneb yn wyneb, neu lythyr gyda rhagor o gyngor ar reoli'r anaf. Yr unig eithriad i hyn yw'r cleifion hynny sy'n bodloni'r meini prawf a nodir ym mhrotocol y Bwrdd Iechyd ar gyfer apwyntiad wyneb yn wyneb mewn clinigau adrannau achosion brys dan arweiniad meddyg ymgynghorol Ysbyty Treforys ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Dywedwyd wrthym y gall yr Uned bob amser geisio cyngor gan feddyg ymgynghorol adran achosion brys Ysbyty Treforys ac y caiff cleifion rif cyswllt yr Uned rhag ofn y bydd angen help neu gyngor arnynt. Dywedodd y Nyrs Ymgynghorol wrth AGIC fod cyfleoedd addysgol ar gael i Ymarferwyr Nyrsio Brys a gyflogir yn yr Uned fod yn rhan o alwadau ffôn a fideo clinigau toresgyrn rhithwir er mwyn sicrhau datblygiad proffesiynol.

Y gwelliannau ychwanegol yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf

Roedd y gwelliannau yr oedd angen eu gwneud yn dilyn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol: Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff yr amgylchedd gofal ei adolygu'n rheolaidd er mwyn nodi unrhyw ddiffygion a mynd i'r afael â nhw
- Sicrhau y caiff deunyddiau glanhau peryglus eu storio dan glo
- Sicrhau y caiff cyfarpar meddygol ei galibradu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr

- Sicrhau bod proses benodol ar waith ar gyfer yr Uned i hysbysu'r staff pryd y dylid cynnal asesiadau risg i nodi risg claf o ddatblygu niwed pwyso yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd a chanllawiau proffesiynol cenedlaethol
- Sicrhau bod proses benodol ar waith ar gyfer yr Uned i hysbysu'r staff pryd y dylid cynnal asesiad o risg claf o gwympo yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd
- Sicrhau bod y staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol gofynnol wrth ofalu am gleifion
- Adolygu'r trefniadau glanhau dwylo ar gyfer yr Uned
- Sicrhau y caiff biniau offer miniog eu gwaredu'n amserol
- Sicrhau bod archwiliadau ac amserlenni glanhau clinigol ar waith ar gyfer yr Uned
- Gwellu'r arwyddion i ddangos sut i ddefnyddio'r biniau a pha eitemau y gellir ac na ellir eu rhoi ynddynt
- Adolygu ei bolisi i ystyried a ddylid gosod biniau cynhyrchion mislif yn yr ysbyty
- Darparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau y caiff meddyginiaethau eu storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr
- Sicrhau y caiff yr holl feddyginiaethau eu storio dan glo mewn cypyrddau ac oergelloedd meddyginiaethau penodol
- Darparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau y caiff cyffuriau a reolir eu harchwilio yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd
- Darparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i wella safon broffesiynol trefniadau cadw cofnodion.

Y camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Cynhelir archwiliadau dyddiol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd yn ddiffygiol. Mae cadeiriau wedi'u difrodi wedi'u gwaredu ac mae rhai newydd wedi'u harchebu yn eu lle

- Gosod cleon ar gypyrddau a ddefnyddir i storio deunyddiau peryglus
- Caiff cyfarpar y mae angen eu calibradu a'u wasanaethu eu harchwilio'n rheolaidd. Caiff grŵp gorchwyl a gorffen ei sefydlu i ddiwygio'r ddogfennaeth gyfredol er mwyn sicrhau bod prosesau ar waith i reoli cleifion sy'n wynebu risg o ddatblygu niwed pwysu
- Caiff grŵp gorchwyl a gorffen ei sefydlu i ddiwygio'r ddogfennaeth gyfredol er mwyn sicrhau bod prosesau ar waith i reoli cleifion sy'n wynebu risg o ddatblygu niwed pwysu
- Caiff grŵp gorchwyl a gorffen ei sefydlu er mwyn sicrhau bod prosesau ar waith i reoli achosion o gleifion yn cwmpo
- Atgoffwyd pob aelod o'r staff o'r gofyniad i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol
- Mae pob ystafell glinigol a'r ystafell brysbennu yn cynnwys sinc golchi dwylo clinigol a hylif diheintio dwylo alcohol yn unol â'r polisi Rheoli Heintiau mewn Amgylchedd Adeiledig (adran 6.5)
- Mae porthorion yn tynnu offer miniog o finiau deirgwaith y dydd. Caiff biniau offer miniog eu storio yn yr olchfa cyn iddynt gael eu casglu ac mae clo digidol wedi'i archebu ar gyfer y drws hwn
- Mae'r Nyrs Arbenigol ym maes Atal a Rheoli Heintiau wedi cynnal hapwriad annibynnol o'r Uned. Mae amserlenni glanhau ym mhob ystafell a chaiff cofnodion eu gwirio bob dydd
- Mae arwyddion dwyieithog yn y toiledau i ddangos pa wastraff y dylid ei roi yn y biniau
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli cynhyrchion mislif gwastraff yn unol â'n polisi ar reoli trefniadau gwahanu gwastraff
- Mae arwydd clir wedi'i osod ar y cwpwrdd cynhesu a ddefnyddir i storio halwynau carthu. Mae hwn yn dweud bod yr halwynau carthu i'w defnyddio i olchi llygaid ac nid at ddefnydd mewnwythiennol. Mae'r cabinet hwn ar glo. Caiff Gweithdrefn Gweithredu Safonol ei datblygu i ddisgrifio'r trefniant ar gyfer storio halwynau carthu yn y cwpwrdd cynhesu. Yn unol â Hysbysiad Diogelwch Cleifion 015 a pholisi'r Bwrdd Iechyd, gallwn gadarnhau bod cofrestr monitro ward wedi'i roi ar waith

- Gallwn gadarnhau y caiff yr holl feddyginiaethau eu storio dan glo mewn cypyrddau ac oergelloedd meddyginiaethau
- Gallwn gadarnhau y caiff cyffuriau a reolir eu harchwilio o leiaf unwaith y dydd yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd ar Reoli Cyffuriau a Reolir
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn comisiynu adolygiad annibynnol o safon broffesiynol y trefniadau cadw cofnodion er mwyn datblygu cynllun gwella penodol

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Roeddem yn falch o weld bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud y mwyafrif o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â darparu gofal diogel ac effeithiol, ac wedi eu cynnal. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd ymhellach, ac mae'r rhain wedi'u nodi fel canfyddiadau ychwanegol.

- Rhoddwyd tystiolaeth a oedd yn dangos y caiff archwiliadau amgylcheddol eu cynnal yn ddyddiol ym mhob rhan o'r Uned. Nododd arsylwadau amgylcheddol a gynhaliwyd ar 3/7/20 fod yr Uned yn cydymffurfio â 92% o'r safonau gofynnol. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o dîm yr Uned yn gyfrifol am gynnal archwiliadau amgylcheddol yn ôl y galw. Caiff cyfarpar dadebru ei archwilio gan nyrs gofrestredig, a mater i'r nyrs â chyfrifoldeb yw sicrhau y caiff pob ardal ei glanhau a bod pob eitem angenrheidiol ar gael.
- Rhoddwyd tystiolaeth inni a oedd yn cadarnhau y caiff deunyddiau peryglus eu storio dan glo mewn cypyrddau, a'u harchwilio'n ddyddiol.
- Rhoddwyd tystiolaeth inni a oedd yn dangos enghreifftiau o waith calibradu a gwasanaethu cyfarpar yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr
- Darperir ar gyfer y cleifion hynny a allai ddatblygu niwed pwysu yn un o bolisïau gweithredol y Bwrdd Iechyd. Dywedwyd wrthym fod y nyrs glinigol arbenigol ym maes hyfywedd meinwe yn darparu cymorth i'r Uned er mwyn datblygu ei darpariaeth ar gyfer y cleifion hynny a allai ddatblygu niwed pwysu. Rhoddwyd tystiolaeth i AGIC a oedd yn cadarnhau bod 77% o'r oedolion a ymwelodd â'r uned

wedi cael asesiad symudedd⁷ ar ôl cyrraedd yr uned. Dywedwyd wrthym y caiff ymyriadau priodol eu rhoi ar waith os caiff risg i symudedd ei nodi a bod asesiadau a gwblhawyd yn destun adolygiad archwilio gan Ymarferwyr Nyrsio Brys. Dywedwyd wrthym fod cynllun a gymeradwywyd ar waith i archwilio dogfennaeth cleifion y mae angen eu trosglwyddo mewn ambiwlans o'r adran, gan y bydd hyn yn darparu sampl o gleifion y gall fod angen ymyriadau lleddfu pwysau arnynt. Cadarnhaodd y Nyrs Ymgynghorol mai prin yw'r risg o ddatblygu niwed pwysu yn yr Uned ac mai hyd yr arhosiad canolrifol ym mis Hydref 2020 oedd 56 munud, heb unrhyw gleifion yn aros mwy na phedair awr. Cadarnhaodd y bydd y rheolwyr yn adolygu'r broses a'r meini prawf ar gyfer cynnal asesiadau, gan sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi a chanllawiau cenedlaethol.

- Cawsom gopi o'r weithdrefn weithredol ar gyfer asesu cwympiadau. Nododd archwiliad ym mis Ionawr 2020 ddiffyg cydymffurfiaeth â'r weithdrefn hon. Nododd archwiliad arall a gwblhawyd ym mis Hydref 2020 mai dim ond 33% o'r cleifion hynny a adolygwyd a oedd wedi cael asesiad o'r risg o gwmpo ac mai ar gyfer 53% ohonynt yr oedd sgoriau symudedd wedi'u cofnodi. Nododd archwiliad bras arall ym mis Tachwedd 2020 fod 64% o'r cleifion yn y sampl wedi cael asesiad o'r risg o gwmpo. Dywedodd y Nyrs Ymgynghorol wrthym fod staff y dderbynfa bellach yn gwirio dogfennaeth er mwyn sicrhau bod asesiadau risg wedi'u cwblhau cyn rhyddhau cleifion. Cadarnhaodd y Nyrs Ymgynghorol y byddai'n ceisio cyngor ac arferion da gan y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys o ran y gofyniad i asesu'r risg o gwmpo mewn amgylchedd mân anafiadau.
- Rhoddwyd tystiolaeth i AGIC bod canllawiau ar gael i'r staff ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol a bod gan yr Uned swyddog profion ffitio masgiau enwebedig a hyfforddwr cyfarpar diogelu personol. Dywedwyd wrthym fod mannau casglu cyfarpar diogelu personol ychwanegol wedi'u gosod yn yr Uned. Dangosodd tystiolaeth a roddwyd i AGIC lefel uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ar Atal a Rheoli Heintiau ymhlith y staff
- Dywedwyd wrthym fod cyfleusterau golchi dwylo a hylif diheintio dwylo alcohol ar gael yn y dderbynfa ac ym mhob ystafell glinigol,

⁷ Caiff asesiadau symudedd eu cwblhau er mwyn nodi cleifion ag anawsterau symudedd a'r risg y byddant yn datblygu niwed pwysu.

ardal glinigol a gorsaf waith. Dangosodd tystiolaeth a ddogfennwyd y caiff archwiliadau hylendid dwylo ac archwiliadau adolygu gan gymheiriaid misol eu cynnal, a dywedwyd wrthym y caiff y canlyniadau eu rhannu â'r staff.

- Rhoddwyd tystiolaeth inni i gadarnhau bod clo digidol wedi ei osod ar ddrws yr olchfa, a dywedwyd wrthym y caiff biniau offer miniog eu storio dan glo yn yr olchfa ac y caiff yr ardal hon ei harchwilio gan borthorion deirgwaith y dydd
- Rhoddwyd tystiolaeth inni o amserlenni glanhau dyddiol. Cwblhawyd archwiliad o'r trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau a glanhau ym mis Hydref 2020, a dangosodd y canlyniadau lefel uchel o gydymffurfiaeth â'r safonau gofynnol
- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd dystiolaeth o arwyddion gwell mewn perthynas â'r defnydd o finiau, a chadarnhaodd fod biniau newydd wedi'u harchebu a bod yr Uned yn aros iddynt gael eu dosbarthu
- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd dystiolaeth i gadarnhau bod biniau cynhyrchion mislif bellach wedi'u gosod
- Dywedwyd wrthym fod y cabinet cynhesu wedi'i dynnu, a rhoddwyd tystiolaeth inni fod tymereddau'r oergelloedd yn cael eu gwirio'n ddyddiol
- Rhoddwyd tystiolaeth inni fod meddyginiaethau'n destun archwiliadau sicrwydd dyddiol ac y cânt eu storio dan glo mewn cabinet electronig. Caiff hylifau mewnwythiennol eu storio dan glo mewn cwpwrdd a chaiff meddyginiaethau oergell eu storio dan glo mewn oergell.
- Rhoddwyd tystiolaeth inni y caiff cyffuriau a reolir eu harchwilio'n ddyddiol gan ddwy nyrs gofrestredig, a bob chwe mis gan y Fetron a'r adrannau fferyllol
- Rhoddodd y Nyrs Ymgynghorol dystiolaeth inni fod cynllun archwilio ar waith i sicrhau y caiff safonau proffesiynol trefniadau cadw cofnodion eu hadolygu. Dywedwyd wrthym fod yr Uned ar y blaen o ran cyflawni'r cynllun archwilio, a bod y canlyniadau'n cael eu dogfennau mewn adroddiad â'u rhannu â'r Fetron a'r Nyrs Ymgynghorol. Dywedwyd wrthym y caiff adborth ei roi ar lafar i'r staff. At hynny, mae'r Uned yn defnyddio adnodd archwilio System

Brysbennu Manceinion⁸ ac yn cynnal cyfres o archwiliadau clinigol a diogelu. Caiff canlyniadau'r archwiliadau hyn eu rhannu â'r staff.

Canfyddiadau ychwanegol

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar adeg y gwiriad ansawdd, nid oedd yr Uned wedi cael unrhyw bolisi na chanllawiau diwygiedig ar y ffordd y dylid asesu risg defnyddio dyfeisiau a chyfarpar cludadwy yn ddiogel, yn dilyn penderfyniad y Bwrdd Iechyd ym mis Awst 2020 i ddileu'r gofyniad am brofion PAT cyffredinol a chyflwyno dull asesu risg yn seiliedig ar ganllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn lle hynny.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- Darparu'r weithdrefn swyddogol i'r Uned sy'n nodi'r broses ar gyfer asesu risg defnyddio dyfeisiau a chyfarpar trydanol cludadwy yn ddiogel.

Atal Cwmpïadau

Dangosodd archwiliadau a gynhaliwyd ym mis Hydref a mis Tachwedd 2020 nad oedd yr Uned yn cwblhau asesiadau fel mater o drefn o'r risg o gwmpo nac yn cofnodi sgoriau symudedd ar gyfer cleifion a oedd yn mynychu'r uned.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- Rhoi sicrwydd i AGIC y caiff y broses o asesu'r risg o gwmpo ar gyfer cleifion sy'n mynychu'r Uned ei chynnal yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd, safonau cenedlaethol a chanllawiau seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn lleihau niwed y gellir ei osgoi.

⁸ Adnodd rheoli risg glinigol yw adnodd archwilio System Brysbennu Manceinion, a ddefnyddir i reoli llif cleifion yn ddiogel drwy flaenoriaethu cleifion yn ôl eu harwyddion a'u symptomau

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Rhoddwyd copi inni o asesiad risg pwyntiau clymu⁹ dyddiedig 2020, a gwblhawyd mewn ymateb i argymhellion a wnaed yn ystod arolygiad AGIC o Ysbyty Treforys. Roedd yr asesiad risg yn cynnwys rhestr o gamau gweithredu a oedd yn argymhell y dylid gosod drych amgrwm yn yr ystafell aros i blant, rheiliau llenni sy'n plygu yn y prif ardaloedd asesu a chlo cod allwedd ar ddrws y storfa. Dywedwyd wrthym fod yr argymhelliad i osod drych amgrwm yn yr ystafell aros i blant wedi'i oedi, ac nad yw'r ystafell aros i blant yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Mae camau wedi'u cymryd i osod clo cod allwedd ar ddrws y storfa a rheiliau llenni sy'n plygu yn y prif ardaloedd asesu. Dywedwyd wrthym na fu unrhyw ddiweddariadau na chyfarfodydd ers mis Mawrth 2020.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

Rhoi sicrwydd y caiff camau eu cymryd i osod drych amgrwm yn yr ystafell aros i blant yn yr Uned er mwyn gwella'r broses o arsylwi ar blant.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roeddem yn falch o weld bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud y mwyafrif o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad diwethaf mewn perthynas ag ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth, ac wedi eu cynnal.

Rhoddwyd tystiolaeth inni a oedd yn cadarnhau bod gweithlu'r Uned wedi'i gynyddu yn dilyn adolygiad staffio, gan gynnwys recriwtio nyrsys cofrestredig ac Ymarferwyr Nyrsio Brys. Yn sgil ymddeoliad deiliaid swyddi blaenorol, roedd metron a nyrs ymgynghorol

⁹ Risg pwyntiau clymu yw unrhyw beth y gellid ei ddefnyddio at ddiben hongian neu dagu

newydd wedi'u penodi. Roedd polisi gweithredu yn darparu manylion rolau, cyfrifoldebau a'r strwythur rheoli.

Roedd y weithdrefn gweithredu safonol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019 wedi'i diwygio ym mis Ebrill 2020 i adlewyrchu newidiadau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19.

Y gwelliannau yr oedd eu hangen yn ystod yr arolygiad diwethaf

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd adolygu strwythur sefydliadol yr Uned er mwyn sicrhau bod cymysgedd sgiliau priodol ymhlith y staff a llinellau rheoli clir
- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff y Fetron / Ymarferydd Nyrsio Brys Arweiniol ddigon o "amser rheoli" i gyflawni eu cyfrifoldebau rheoli
- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod prosesau a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol cyfredol ar waith yn yr Uned
- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan yr Uned drefniadau llywodraethu ac archwilio clinigol cadarn ar waith er mwyn sicrhau y gellir darparu gofal diogel ac effeithiol
- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i rannu'r gwersi sy'n deillio o weithgarwch arolygu ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd
- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod staff sydd â'r cymysgedd sgiliau cywir ar ddyletswydd yn yr Uned bob amser
- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod mentoriaid yn cwblhau cymhwyster mentora cydnabyddedig
- Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gefnogi'r staff i gael hyfforddiant gorfodol (fel y nodwyd gan y bwrdd iechyd)
- Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gefnogi'r staff i gwblhau hyfforddiant mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

- Mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gefnogi'r staff i fynd i gyfarfodydd tîm
- Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r rhybuddion, y canllawiau a'r polisiâu proffesiynol perthnasol diweddaraf

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd:

- Mae swydd addysgwr clinigol wedi'i hysbysebu'n fewnol er mwyn helpu i oruchwylio a datblygu ymarferwyr nyrsio dan hyfforddiant. Mae portffolio'r Nyrs Ymgynghorol wedi'i ddiwygio dros dro er mwyn neilltuo mwy o amser ar gyfer goruchwylio ac addysgu. Rydym wedi hysbysebu i recriwtio Ymarferwyr Nyrsio Brys ychwanegol yn yr Uned
- Mae trefniadaeth yr Uned yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau bod digon o amser rheoli
- Mae polisi gweithredol cyffredinol yn cael ei ddatblygu ar gyfer yr Uned
- Sefydlwyd cyfarfod Llywodraethu Clinigol ar gyfer yr Uned er mwyn rhoi sicrwydd ansawdd cadarn o fewn y gwasanaeth. Bydd yr Uned yn cyflwyno canlyniad ei harchwiliadau clinigol i Grŵp Archwilio Clinigol Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ar 7 Tachwedd 2018
- Mae gwersi i'w dysgu o'r adolygiad wedi'u rhannu drwy Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Gwellu Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Caiff y gwersi i'w dysgu eu cyflwyno i Grŵp Sicrwydd a Dysgu'r Bwrdd lechyd fel y gellir eu rhannu ag unedau eraill
- Mae swydd Addysgwr Clinigol wedi'i hysbysebu'n fewnol er mwyn helpu i oruchwylio a datblygu ymarferwyr nyrsio dan hyfforddiant. Mae portffolio'r Nyrs Ymgynghorol wedi'i ddiwygio dros dro er mwyn neilltuo mwy o amser ar gyfer goruchwylio ac addysgu. Mae'r Uned wedi hysbysebu i recriwtio Ymarferwyr Nyrsio Brys ychwanegol yn yr Uned
- Mae pob aelod o'r staff sydd ar y rota arfaethedig weithredol yn cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol. Caiff y rhai sydd ar gyfnod o absenoldeb hirdymor ar hyn o bryd gymorth i gydymffurfio â hyfforddiant ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith

- Caiff pecyn hyfforddi pwrpasol ei roi ar waith ar gyfer yr Uned mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Cynhelir cyfarfodydd staff yn yr Uned a chaiff nodiadau eu rhannu â'r rhai na allant fod yn bresennol
- Bydd cyfarfodydd Llywodraethu Clinigol yr Uned yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r rhybuddion, y canllawiau a'r polisïau proffesiynol diweddaraf.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Roeddem yn falch o weld bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud y mwyafrif o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad diwethaf, ac wedi eu cynnal.

- Rhoddwyd tystiolaeth inni a oedd yn cadarnhau bod gweithlu'r Uned wedi'i gynyddu yn dilyn adolygiad staffio. Dangosodd y dystiolaeth gynnydd yn nifer y nyrsys cofrestredig band 5 a band 7. Yn sgil ymddeoliad deiliaid swyddi blaenorol, roedd metron a nyrs ymgynghorol newydd wedi'u penodi. Roedd polisi gweithredu yn darparu manylion rolau, cyfrifoldebau a'r strwythur rheoli
- Mae tystiolaeth a ddogfennwyd yn dangos y caiff amser rheoli ei neilltuo ar gyfer y fetron a'r Ymarferydd Nyrsio Brys arweiniol ac na chaiff yr amser hwn ei gyfaddawdu
- Rhoddwyd tystiolaeth inni o weithdrefn gweithredu safonol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019 ac a ddiwygiwyd ym mis Ebrill 2020 i adlewyrchu newidiadau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19.
- Cadarnhaodd tystiolaeth y bu cynrychiolaeth dda mewn cyfarfod staff a gynhaliwyd ar 30/9/20 drwy Microsoft Teams
- Rhoddwyd copi i AGIC o adroddiad gwasanaeth yr Uned dyddiedig mis Gorffennaf/Awst 2020 ac adroddiad llywodraethu dyddiedig mis Medi 2020. Dangosodd yr adroddiadau hyn fod diffyg dealltwriaeth o swyddogaeth yr Uned ymhlith y cyhoedd a oedd yn mynd i'r adran ac, weithiau, staff gofal sylfaenol lleol. Mewn ymateb i hyn, ysgrifennodd y Nyrs Ymgynghorol at bob meddyg teulu lleol yn amlinellu cwmpas yr Uned. At hynny, mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn darparu gwybodaeth a chanllawiau ar-lein i'r cyhoedd ar sut i gael gofal ar gyfer mân anhwylderau Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio cyfleuster y gall cleifion ei ffonio cyn

mynd i'r Adran Achosion Brys/Uned fel y gellir eu hasesu i sicrhau eu bod yn cael y gwasanaethau cywir. Nod y gwaith hwn yw gwella diogelwch a phrofiad cleifion, gan leihau nifer y bobl sy'n mynd i'r Uned yn amhriodol. Bydd hefyd yn rhoi'r cyfle i'r Uned drefnu apwyntiadau ar gyfer rhai cleifion, gan atal adegau prysur yn y galw am wasanaeth a lleihau amseroedd aros. Ystafell aros fach sydd yn yr Uned, sydd bellach yn cynnwys llai o seddau nag o'r blaen o ganlyniad i fesurau cadw pellter cymdeithasol. Mae ystafell aros rithwir wedi'i chyflwyno. Asesir risg cleifion sy'n dod i'r Uned ac os byddant yn addas, gofynnir iddynt aros yn eu cerbydau eu hunain. Dywedwyd wrthym na chafwyd unrhyw gwynion ac na fu unrhyw ddigwyddiadau mewn perthynas â'r ystafell aros rithwir

- Trafodwyd adroddiad arolygu AGIC dyddiedig Awst 2018 mewn cyfarfod llywodraethu diweddar. Yn dilyn yr adolygiad, cynhyrchodd Metron yr Uned fideo o straeon staff, a rannwyd yng nghyfarfod ansawdd a diogelwch yr Uned Cyflenwi.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Y gwelliannau yr oedd eu hangen yn ystod yr arolygiad diwethaf

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol: Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod staff sydd â'r cymysgedd sgiliau cywir yn gweithio yn yr Uned
- Y caiff y staff eu cefnogi i fynychu a chwblhau hyfforddiant gorfodol
- Bod y staff yn cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Bod y staff yn mynychu cyfarfodydd staff
- Bod y staff yn gallu cael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd:

- Hysbysebu swydd ar gyfer Addysgwr Clinigol, diwygio portffolio'r Nyrs Ymgynghorol a recriwtio Ymarferwyr Nyrsio Brys ychwanegol
- Mae pob aelod o'r staff sydd ar y rota arfaethedig weithredol yn cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol. Caiff y rhai sydd ar gyfnod o absenoldeb hirdymor ar hyn o bryd gymorth i gydymffurfio â hyfforddiant ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith
- Defnyddir pecyn hyfforddi pwrpasol yn yr Uned sy'n amlinellu gofynion y Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Cynhelir cyfarfodydd staff yn yr Uned a chaiff nodiadau eu rhannu â'r rhai na allant fod yn bresennol
- Bydd cyfarfodydd Llywodraethu Clinigol yr Uned yn sicrhau y caiff y staff y wybodaeth ddiweddaraf am rybuddion, canllawiau a pholisïau proffesiynol.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Roeddem yn falch o weld bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud y mwyafrif o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad diwethaf mewn perthynas ag ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth, ac wedi eu cynnal. Rhoddwyd tystiolaeth i ddangos bod y camau canlynol wedi'u cymryd:

- Mae Addysgwr Clinigol wedi'i recriwtio er mwyn helpu i oruchwylio a datblygu Ymarferwyr Nyrsio Brys dan hyfforddiant. Mae portffolio'r Nyrs Ymgynghorol wedi'i ddiwygio dros dro er mwyn neilltuo mwy o amser ar gyfer goruchwylio ac addysgu. Mae Cynllun Uwchgyfeirio Staff y cytunwyd arno ac asesiad risg staffio ar waith mewn perthynas ag ail don pandemig COVID-19
- Dywedwyd wrthym fod gan yr Uned nyrsys cofrestredig sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar fentora. Rhoddwyd tystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod gofynion hyfforddi newydd wedi'u cyflwyno ar gyfer goruchwylwyr ymarfer, hwyluswyr ac aelodau perthnasol o'r staff, a bod dyddiadau hyfforddi wedi'u trefnu. Dywedwyd wrthym fod yr Addysgwr Clinigol yn wiriwr mewnol ardystiedig ar gyfer rhaglen

Ymarferwyr Nyrsio Brys Agored Cymru¹⁰, a bod y Nyrs Ymgynghorol a'r Uwch-ymarferydd Nyrsio Brys wedi cwblhau cwrs aseswyr Agored Cymru

- Dywedwyd wrthym fod yr Uned yn cyflogi Addysgwyr Ymarferwyr Nyrsio Brys sy'n canolbwyntio ar ddatblygu Ymarferwyr Nyrsio Brys dan hyfforddiant. Cadarnhaodd tystiolaeth fod cofnodion hyfforddiant gorfodol yn nodi lefel gyffredinol uchel o gydymffurfiaeth, ar wahân i nifer bach o'r staff a oedd yn absennol oherwydd salwch hirdymor neu ar seibiant gyrfa, yr oedd eu cydymffurfiaeth yn isel
- Dangoswyd bod 79% o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, gan fethu â chyflawni'r gyfradd cydymffurfiaeth sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd, sef 85%. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod rhagor o hyfforddiant wedi'i gynllunio ac ar y gweill, gan ddefnyddio sesiynau addysgu rhithwir.
- Rhoddwyd tystiolaeth a oedd yn cadarnhau y caiff cyfarfodydd tîm misol eu cynnal ac y caiff gwybodaeth ei hanfon at bob aelod o'r staff drwy e-bost. Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella ers cyflwyno cyfarfodydd rhithwir drwy Microsoft Teams.
- Rhoddwyd tystiolaeth i AGIC o gyfarfodydd llywodraethu a chyfarfodydd staff a oedd yn dangos trafodaethau ynghylch polisiau a chanllawiau'r Bwrdd Iechyd.

Canfyddiadau ychwanegol

Cadarnhaodd tystiolaeth fod nifer yr Ymarferwyr Nyrsio Brys wedi cynyddu drwy recriwtio tri Ymarferydd Nyrsio Brys dan hyfforddiant. Fodd bynnag, mynegodd y Nyrs Ymgynghorol bryderon fod hyfforddiant swyddogol i Ymarferwyr Nyrsio Brys wedi'i atal dros dro o ganlyniad i'r pandemig, ac nad oedd wedi ailgychwyn eto. Eglurodd fod Ymarferwyr Nyrsio Brys cwbl hyfforddedig yn chwarae rôl hollbwysig wrth ddarparu gofal i gleifion ar yr Uned, am eu bod yn gallu asesu, rhoi diagnosis a thrin cleifion.

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod yr Uned wedi hysbysebu'n allanol ar gyfer Ymarferydd Nyrsio Brys hyfforddedig, ond nad oedd wedi cael unrhyw geisiadau. Dywedwyd wrthym fod gan yr Uned uwch-dîm o Ymarferwyr Nyrsio

¹⁰ Agored Cymru yw'r dewis gorff dyfarnu yng Nghymru ar gyfer darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Brys (band 7), gydag oedran cyfartalog o 48. Mynegodd y Nyrs Ymgynghorol bryderon nad oes amser wedi'i neilltuo yn ystod wythnos waith Ymarferwyr Nyrsio Brys ar gyfer datblygiad proffesiynol, cyfrannu at arweinyddiaeth yr uned, addysgu nac archwilio, yn wahanol i unedau eraill sy'n darparu un sesiwn (tua 3.5 awr) bob wythnos ar gyfer y gweithgareddau hyn. Dywedwyd wrthym nad oes gan yr Uned gynllun olyniaeth cynaliadwy ar gyfer staffio na chyllideb benodol ar gyfer hyfforddiant er mwyn manteisio ar hyfforddiant addysgol a datblygiad proffesiynol drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Cwblhawyd asesiad risg staffio ar 30/10/2020 er mwyn canfod effaith y pandemig. Nododd yr asesiad hwn heriau o ran swyddi gwag, darpariaeth gofal plant yn ystod y pandemig, a chyfnodau gwarchod ac absenoldeb oherwydd salwch hirdymor ymhlith uwch-aelodau o'r staff. Dywedwyd wrthym fod cymorth wedi'i ddarparu gan Ysbyty Treforys a bod yr Uned yn defnyddio gwasanaethau dau ymarferydd nyrsio asiantaeth dibynadwy.

Adolygodd AGIC becyn sefydlu'r Uned ar gyfer nyrsys dan hyfforddiant. Gwelsom fod y pecyn hwn yn waith sy'n mynd rhagddo ac y byddai angen ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod pob aelod o staff yr Uned yn cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Y caiff nifer y staff a'r cynllun olyniaeth cynaliadwy eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau y gall y gweithlu ddarparu gofal digonol ac amserol i gleifion â mân anafiadau

Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried y canlynol:

- Ffyrdd cynaliadwy o alluogi Ymarferwyr Nyrsio Brys i fanteisio ar hyfforddiant addysgol a datblygiad proffesiynol yn ystod y pandemig
- Manteision neilltuo amser yn ystod yr wythnos waith i Ymarferwyr Nyrsio Brys feithrin sgiliau arwain a datblygu'n broffesiynol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi'u cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu'n rhai dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Ni chaiff y gwasanaeth unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau a wnaed gan y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn y byddwn yn canolbwyntio.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau o hyd.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Uned Môn Anafiadau Ysbyty Castell-nedd Port Talbot

Dyddiad arolygu: 17 Tachwedd 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Uned Môn Anafiadau Ysbyty Castell-nedd Port Talbot

Dyddiad arolygu: 17 Tachwedd 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ni nodwyd unrhyw faterion				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu'r weithdrefn swyddogol i'r Uned sy'n nodi'r broses ar gyfer asesu risg defnyddio dyfeisiau a chyfarpar trydanol cludadwy yn ddiogel.	Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu polisi yn ymwneud â phroffion dyfeisiau cludadwy (PAT), a chafodd ei adolygu yng nghyfarfod y Grŵp Gweithredol Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2021. Caiff ei adolygu a'i gadarnhau yng nghyfarfod yr Is-grŵp Trydanol Iechyd a Diogelwch a gynhelir ar 16 Chwefror 2021.	Rheolwr Rhanbarthol Gweithrediadau'r Ysbyty	16 Chwefror 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Caiff cydymffurfiaeth yr Uned â'r polisi hwn ei asesu ac eir i'r afael â'r canfyddiadau.	Metron yr Uned	Un mis
Rhaid i'r Bwrdd Iechyd roi sicrwydd i'r Uned y caiff y broses o asesu'r risg o gwmpo ar gyfer cleifion sy'n mynychu'r Uned ei chynnal yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd, safonau cenedlaethol a chanllawiau seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn lleihau niwed y gellir ei osgoi	Safon 2.3 Atal Cwmpadau	Cafodd cofnodion 30 o gleifion (dros 64 oed) a fynychodd yr Uned rhwng 4 a 7 Chwefror 2021 eu harchwilio a nodwyd bod 93% ohonynt yn cydymffurfio â'r gofyniad i gwblhau'r asesiad risg. Cymerwyd camau priodol mewn perthynas â phob claf y nodwyd ei fod yn wynebu risg bellach o gwmpo. Caiff archwiliad o'r broses o asesu'r risg o gwmpo ei gynnal bob dwy flynedd.	Nyrs Ymgynghorol Nyrs Ymgynghorol	Wedi'i gwblhau Parhaus
Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd roi sicrwydd y caiff camau eu cymryd i osod drych amgrwm yn yr ystafell aros i blant yn yr Uned er mwyn gwella'r broses o arsylwi ar blant.	Safon 2.7 Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg	Mae drych amgrwm wedi'i archebu er mwyn gwella'r broses o arsylwi ar blant yn yr ystafell aros i blant. Caiff y drych ei osod pan fydd wedi'i dderbyn.	Rheolwr Rhanbarthol Gweithrediadau'r Ysbyty	Un mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Yn sgil yr ymateb i bandemig COVID-19, mae'r ystafell aros i blant yn parhau ar gau. Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau na chaiff ei hailagor tan y bydd y drych wedi'i osod a chyfyngiadau COVID-19 wedi'u codi.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau'r canlynol: - Bod pob aelod o staff yr Uned yn cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid - Caiff nifer y staff a'r cynllun olyniaeth cynaliadwy eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau y gall y gweithlu ddarparu gofal digonol ac amserol i gleifion â mân anafiadau Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried y canlynol:	Safon 7.1 Y Gweithlu	Ers yr arolygiad a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2020, mae'r Uned wedi sicrhau cyfradd cydymffurfiaeth o 88%. Targed y Bwrdd Iechyd yw 85%. Mae rhagor o hyfforddiant wedi'i drefnu ym mis Mawrth 2021, a fydd yn sicrhau cyfradd cydymffurfiaeth o 100% ymhlith y staff sydd ar gael. Caiff gweithlu'r Uned ei adolygu bob dwy flynedd yn unol â'r amserlen ar gyfer adolygu amgylcheddau wardiau ysbytai. Caiff yr adolygiadau hyn eu	Metron yr Uned Nyrs Ymgynghorol	Mawrth 2021 Parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
- Ffyrdd cynaliadwy o alluogi Ymarferwyr Nyrsio Brys i fanteisio ar hyfforddiant addysgol a datblygiad proffesiynol yn ystod y pandemig - Manteision neilltuo amser yn ystod yr wythnos waith i Ymarferwyr Nyrsio Brys feithrin sgiliau arwain a datblygu'n broffesiynol.		cyflwyno yng Nghyfarfodydd Llywodraethu'r Uned.	Nyrs Ymgynghorol	Wedi'i gwblhau
		Mae sesiynau goruchwyllo ar-lein gyda Meddyg Ymgynghorol ym maes Meddygaeth Frys a Nyrs Ymgynghorol wedi'u trefnu. Sesiynau awr o hyd yw'r rhain, a gynhelir bob yn ail wythnos.	Nyrs Ymgynghorol	Wedi'i gwblhau
		Caiff Ymarferwyr Nyrsio Brys hefyd eu gwahodd i gymryd rhan yn rhaglen addysg feddygol ar-lein yr adran achosion brys. Mae hyn yn rhoi'r cyfle iddynt fanteisio ar sesiynau sy'n berthnasol i'w hymarfer.	Metron yr Uned	11 Ebrill 2021
		Bydd nifer yr Ymarferwyr Nyrsio Brys yn cynyddu o 11 Ebrill 2021. Caiff amser ei neilltuo yn y rota ar gyfer datblygiad proffesiynol Ymarferwyr Nyrsio Brys unigol.		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Lesley Jenkins

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp

Dyddiad: 08/02/2021